

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

Beth yw effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTTC+ yn y DU (ar draws parthau iechyd, gwaith, addysg, safonau byw, cyfranogiad a chyfiawnder) a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn? Map Cyflym o Dystiolaeth a chrynodeb o argymhellion crybwylledig

Rhif adroddiad – REM00029 (Mawrth 2022)

Manylion y Map Cyflym o Dystiolaeth

Adolygiad wedi'i gynnal gan:

Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu

Tîm Adolygu:

Andrew Cleves, Freya Davies, Kate Lifford, Mala Mann, Helen Morgan, Lydia Searchfield, Alison Weightman

Adolygiad wedi'i gyflwyno gan WCEC: 1^{af} Ebrill 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid: 5^{ed} Ebrill 2022

Map Cyflym o Dystiolaeth wedi'i gyhoeddi gan WCEC yn: Mehefin 2022

Tîm WCEC:

Alison Cooper, Rebecca-Jane Law, Ruth Lewis, Adrian Edwards, Micaela Gal, Jane Greenwell a gyfrannodd at ysgrifennu'r Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a golygu

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

REM00029. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Map cyflym o dystiolaeth o effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTTC+ yn y DU a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn. Mawrth 2022

Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn o:

<https://ymchwilielchydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

Ymwadiad: Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

Beth yw effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTTC+ yn y DU (ar draws parthau ieched, gwaith, addysg, safonau byw, cyfranogiad a chyfiawnder) a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn? - map cyflym o dystiolaeth a chrynodeb o argymhellion crybwylliedig

Rhif adroddiad – REM00029 (Mawrth 2022)

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth ydy Map Cyflym o Dystiolaeth?

Mae ein Mapiau Cyflym o Dystiolaeth (REMs) yn defnyddio **dulliau mapio neu gwmpasu adolygiadau systematig talfyredig** i ddarparu disgrifiad o natur, nodweddion a swm y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer parth polisi neu gwestiwn ymchwil penodol. Maent wedi'u seilio'n bennaf ar asesiad o grynodedbau ac yn ymgorffori protocol a-priori, chwiliad systematig, sgrinio a thynnu data lleiaf. Gallant weithiau gynnwys arfarnu beirniadol, ond ni wneir unrhyw gyfuno tystiolaeth. Rhoddir blaenoriaeth, lle bo'n ddichonol, i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno tystiolaeth yn gadarn. Maent wedi'u dylunio a'u defnyddio'n bennaf i **nodi ffocws sylweddol ar gyfer adolygiad cyflym, a bylchau ymchwil allweddol yn y sylfaen dystiolaeth**.

Ni arweiniodd y map cyflym o dystiolaeth hwn at adolygiad cyflym oherwydd y sylfaen dystiolaeth gyfyngedig. Yn lle hynny, mae'n cynnwys cydran werthuso ychwanegol sy'n canolbwyntio ar y goblygiadau a'r argymhellion a ddaeth o du sefydliadau rhanddeiliaid o fewn yr astudiaethau a gynhwyswyd, ac unrhyw werthusiadau o ymyriadau i liniaru effaith y pandemig ar y cymunedau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, rhyngrywiol a hunaniaethau cwiar eraill (LHDTTC+).

Cefndir/ Nod y map cyflym o dystiolaeth

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu effaith COVID-19 anghymesur ymhlith cymunedau LHDTTC+ yng Nghymru. Mae'n hanfodol deall yr effeithiau hyn er mwyn nodi a blaenoriaethu camau gweithredu i leihau effaith gyfredol y pandemig COVID-19 a'i effaith yn y dyfodol (a phandemigau posibl yn y dyfodol) ar gymunedau LHDTTC+ sy'n byw yng Nghymru.

Er mwyn darparu sail ar gyfer datblygu [Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru](#), nod y map cyflym o dystiolaeth hwn yw disgrifio'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith y pandemig COVID-19 ar gymunedau LHDTTC+ yn y DU ar draws parthau **addysg, gwaith, safonau byw, ieched, cyfiawnder a chyfranogiad**, yn unol â diffiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. **Nod ychwanegol** oedd cynnwys **asesiad o gamau gweithredu** a nodwyd o'r astudiaethau hyn o ran cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru (tymor byr; tymor canolig; tymor hir) y gellir **mynd ar eu trywydd i leihau/ dileu effaith gyfredol COVID-19 a'i effaith yn y dyfodol** ar gymunedau LHDTTC+ sy'n byw yng Nghymru.

Darganfyddiadau allweddol

Graddau'r sylfaen dystiolaeth

- Cynhwyswyd 35 o astudiaethau, gan gynnwys 15 o erthyglau cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid ac 20 o erthyglau llenyddiaeth lwyd.
- Roedd dyluniadau'r astudiaethau'n cynnwys: adolygiad systematig (n=1); meintiol (n=17, gan gynnwys un astudiaeth cohort ac 16 astudiaeth drawstoriadol); ac ansoddol (n=10).
- Dim ond 1 astudiaeth a nodwyd oedd yn cynnwys poblogaeth Cymru yn unig (roedd y lleill wedi'u seilio yn y DU, gan gynnwys astudiaethau ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol) ac nid oedd yr un o'r astudiaethau hyn yn cynnwys plant yn unig.

- Roedd un adolygiad systematig (a oedd yn cynnwys llenyddiaeth lwyd yn unig) yn awgrymu deilliannau gwaeth i'r cymunedau LHDTTC+ o'u cymharu â'u sefyllfa cyn y pandemig neu o'u cymharu â phoblogaethau heterorywiol/ cisryweddol ar draws parthau llesiant ac iechyd meddwl, ymddygiadau iechyd, diogelwch, ymgysylltiad cymdeithasol a mynediad i ofal iechyd cyffredinol.
- Roedd 13 astudiaeth yn cynnwys goblygiadau neu argymhellion.

Parthau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

- Y **parth iechyd** oedd y parth yr adroddwyd arno amlaf yn y llenyddiaeth (n=34 o astudiaethau). Dyma oedd y dangosyddion yr adroddwyd arnynt amlaf, mewn trefn ddisgynnol: iechyd meddwl, deilliannau iechyd, mynediad i ofal iechyd, ac iechyd atgenhedlol a rhywiol.
- **Prin iawn oedd y dystiolaeth ar gyfer y parth addysg** gyda dim ond 1 astudiaeth drawstoriadol o bobl ifanc 11-18 oed yn adrodd ar y maes hwn.
- Roedd yna **rywfaint o dystiolaeth ar gyfer y parth gwaith** gyda saith astudiaeth yn edrych ar ddangosyddion cyflogaeth (4 astudiaeth) a/ neu enillion (4 astudiaeth).
- **Roedd wyth astudiaeth yn adrodd ar y parth safonau byw**, gan gynnwys 6 astudiaeth a oedd yn edrych ar ddangosydd tai ac 1 yr un yn edrych ar ddangosyddion gofal cymdeithasol a thlodi.
- Ar gyfer y **parth cyfranogiad**, dyma oedd y dangosyddion yr adroddwyd arnynt amlaf, mewn trefn ddisgynnol: cydlyniant cymdeithasol a chymunedol, bywyd teuluol a mynediad i wasanaethau.
- Ar gyfer y **parth cyfiawnder a diogelwch personol**, yr unig ddangosydd yr adroddwyd arno oedd: troseddau casineb, lladdiadau, cam-drin rhywiol a domestig.

Crynodeb o'r goblygiadau a'r argymhellion crybwylledig a gwerthusiadau o strategaethau lliniaru a fapiwyd yn unol â'r wyth thema yng [Nghynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru](#)

- Mapiwyd 50 o oblygiadau ac argymhellion crybwylledig mewn astudiaethau a gynhwyswyd ar draws yr wyth thema: Nodau Cyffredinol (n = 4); Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth (n = 1); Sicrhau Diogelwch Pobl LHDTTC+ (n = 4); Cartrefi a Chymunedau (n = 14); Gwella Canlyniadau Iechyd (n = 18); Addysg (n = 7); a'r Gweithle (n = 2)
- Roedd dwy astudiaeth yn gwerthuso symudiadau i gyfathrebu o bell rhwng darparwyr gwasanaeth a chleientiaid i liniaru effeithiau negyddol y pandemig. Roedd y ddwy astudiaeth yn dangos effeithiau positif yr ymyriadau ond roeddynt yn ddiffygiol o ran methodoleg.

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr astudiaethau a nodwyd yn cynnwys data a gasglwyd tan fis Ebrill 2021.

Cryfder y dystiolaeth

- Mae'r adolygiad hwn **yn dibynnu'n gryf ar lenyddiaeth lwyd**, yn nodweddiadol astudiaethau trawstoriadol ac astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd gan sefydliadau eirioli dros y cymunedau LHDTTC+.
- Mae'r dystiolaeth **yn hynod berthnasol i gymunedau LHDTTC+ y DU** ond mae wedi'i chyfyngu i werthusiad o effaith gynnar y pandemig (tan fis Ebrill 2021) ac nid yw'n darparu **unrhyw arwydd o effeithiau neu fesurau lliniaru cyfredol neu dymor hir**.
- Nid oedd yr un astudiaeth a gynhwyswyd yn disgrifio defnyddio proses ffurfiol i ddatblygu eu hargymhellion sydd felly'n galw am asesiad ychwanegol o'u priodoldeb.

Goblygiadau ar gyfer polisi ac arfer

- Mae'r Map Cyflym o Dystiolaeth **yn disgrifio'r goblygiadau a'r argymhellion** y dygwyd sylw atynt yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i'w hystyried ymhellach ac yn disgrifio'r meysydd sy'n galw am ymchwil bellach.
- Ar draws yr 8 thema, nid oedd yna **unrhyw arwydd o wahaniaethau mawr** rhwng y goblygiadau a'r argymhellion a nodwyd a'r strategaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yng [Nghynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru](#).
- Mae yna **ddiffyg tystiolaeth gadarn ddiweddar** ynglŷn ag effeithiau'r pandemig ar gymunedau LHDTTC+ a mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain, i ddarparu sail gadarn ar gyfer y fersiwn derfynol o [Gynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru](#) ac felly **ni arweiniodd y gwaith hwn at Adolygiad Cyflym**.
- **Mae angen cyllid ymchwil** i ddeall mwy am *sut* i fynd i'r afael â deilliannau gwael i gymunedau LHDTTC+, yn y cyd-destun cyfredol a hefyd o ran bod yn barod am argyfyngau yn y dyfodol, ac i *werthuso effeithiolrwydd* ymyriadau i gefnogi cymunedau LHDTTC+.